

## Amodau Trwydded Asiant

# Trefniadau Diogelu Busnes

Mae'r amod "Diogelu Busnes" yn ofyniad y bydd angen i **BOB** Asiant sy'n drwyddedig gyda Rhentu Doeth Cymru ei fodloni er mwyn iddynt gadw at amodau eu trwydded. Mae'r amod hwn yn gofyn i'r asiant drefnu:

- **Diogelwch Arian Cleientiaid (Ile caiff arian cleientiaid eu trafod),**
- **Yswiriant Indemniad Proffesiynol (£100,000 neu £500,000), ac**
- **Aelodaeth o Gynllun Unioni Camweddau sydd wedi'i gymeradwyo gan y Llywodraeth.**

Fodd bynnag, mae rhai eithriadau i'r gofyniad hwn y gellir gwneud cais amdanynt. Cysylltwch â Rhentu Doeth Cymru os ydych yn credu bod gennych hawl i gael eich eithrio. Cofiwch y gallai eithriadau a gofynion fod wedi newid ers eich cais am drwydded ddiwethaf.

Mae'r eithriadau diogelu busnes wedi'u rhestru isod a dim ond ar ôl i Rentu Doeth Cymru gynnal asesiad risg a barnu bod y risg i landlord(iaid) a thenantiaid y cleient yn isel y byddant yn cael eu cymeradwyo.

Mae Rhentu Doeth Cymru yn cadw'r hawl i wrthod neu i ddiwygio eithriad i'r drwydded diogelu busnes ar unrhyw adeg cyn, yn ystod neu ar ôl adnewyddu tymor y drwydded.

### Amgylchiadau'r asiant

### Gofyniad

Asiant Unigol sy'n rheoli eiddo ar gyfer aelodau o'r teulu yn unig (teulu fel y'i diffiniwyd o dan Adran 258, Deddf Tai 2004) **ble mae cyfanswm nifer yr eiddo yn llai na 5 ac mae cyfanswm nifer y tenantiaethau fesul eiddo yn llai na 5.**

Mae'n ofyniad i'r asiant gadarnhau perthynas deuluol â'r **holl** landlordiaid cleient.

Asiant sy'n rheoli eiddo ar gyfer un **trefniant landlord nad yw'n gysylltiedig** ynglŷn â 2 neu lai o eiddo

*Gall 'trefniant landlord' olygu naill ai cofrestrriad unigol neu un cofrestrriad ar y cyd*

Mae'n ofyniad i'r asiant a **phob** Landlord **cleient (a enwir yn y cofrestrriad)** lofnodi datganiad i gadarnhau na fydd yr Asiant yn ymgymryd ag unrhyw eiddo ychwanegol a bod y Landlord yn cydsynio i hepgor yr amod diogelu.

Nid yw'r asiant yn gosod nac yn rheoli unrhyw eiddo yng Nghymru ar gyfer landlord (busnes cychwynnol).

Rhaid i'r asiant lofnodi datganiad i gadarnhau nad oes unrhyw eiddo'n cael ei reoli ar gyfer pobl eraill ar hyn o bryd. Bydd angen mesurau diogelu o fewn 6 wythnos i weithgareddau gosod a rheoli ddechrau, ac

---

mae'n ofynnol hysbysu Rhentu Doeth Cymru ar unwaith.

---

Asiant yn ymgymryd â gweithgareddau 'gosod' yn unig (fel a bennir gan Adran 9 a 10 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014

Asiant i lofnodi datganiad 'Ar Osod yn unig' i gadarnhau na chynhelir unrhyw weithgareddau 'Rheoli'

---

Nid yw'r asiant yn ymdrin ag UNRHYW arian cleient

*Mae arian cleient yn cynnwys unrhyw arian a dderbynnir, neu a ddelir, ar ran neu oddi wrth gleient nad yw'n daladwy ar unwaith i'r Asiant. Gall enghreifftiau o arian cleient gynnwys rhent, blaendaliadau, ffioedd ychwanegol, taliadau gwasanaeth ac ati*

Yr asiant i lofnodi datganiad 'Dim Arian Cleient' i gadarnhau nad ydynt yn ymdrin ag arian cleient

---

Bydd unrhyw eithriad yn cael ei adolygu ar adeg unrhyw newid mewn amgylchiadau, a allai arwain at y gofyniad i sicrhau bod y mesurau diogelu busnes yn cael eu hadfer.

---

**Mae'n drosedd darparu gwybodaeth i Rentu Doeth Cymru (yr Awdurdod Trwyddedu Sengl) sy'n anwir neu'n gamarweiniol ac y gwyddoch ei fod yn anwir neu'n gamarweiniol neu **rydych chi'n** ddi-hid ynghylch a yw'n anwir neu'n gamarweiniol.**

**Bydd eich trwydded mewn perygl os na fyddwch yn cadw at amodau eich trwydded.**

**Yr Asiant Trwyddedu:** Trefniadau Diogelu Busnes Asiantau